TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

CACHE Tystysgrif ar gyfer Uwch Ymarferwyr mewn Ysgolion a Cholegau Lefel 4

Yn gryno

Dyma'r Dystysgrif NCFE CAHCE L4 ar gyfer Uwch Ymarferwyr mewn Ysgolion a Cholegau.

Nod y cymhwyster yw darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol i ymarferwyr sy'n rhan o'r gweithlu mewn ysgolion a cholegau. Bydd y cymhwyster hwn yn cyfoethogi'ch profiad, gwybodaeth brofedig a'ch sgiliau mewn amgylchedd addysgu a dysgu. Bydd yn eich herio chi o ran ymarfer dydd i ddydd a dealltwriaeth ddamcaniaethol.

Bydd y cwrs yn eich helpu chi i feithrin ac i ddefnyddio sgiliau arwain, mentora, hyfforddi a myfyrio wrth i chi fynd ati i gwblhau cymhwyster drwy gyfleoedd dysgu'n seiliedig ar waith.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... y rheiny sy'n gweithio mewn swyddi addas mewn ysgolion neu golegau. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr, sy'n dod o weithio mewn ysgolion a cholegau, yn ofyniad ar gyfer y cymhwyster Datblygiad Proffesiynol Parhaus hwn.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...y rheiny sydd eisoes yn gweithio mewn amgylchedd perthnasol, megis ysgol neu goleg.

...y rheiny sy'n frwd ac yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau drwy unedau a addysgir ac astudiaeth hunan ddarparu.

Cynnwys y cwrs

Mae gan y cymhwyster hwn fwy na 5 uned orfodol ac fe'u hastudir yn ystod y cwrs. Disgwylir i chi gwblhau'r 5 uned hon yn llwyddiannus cyn i'r cwrs ddod i ben. Yr unedau yw:

Cefnogi unigolion i ddysgu
Deall sut i gefnogi plant a phobl ifanc i wella'u hiechyd meddwl a'u llesiant
Gweithio gydag eraill i gefnogi unigolion gydag anghenion/anableddau mewn ysgol neu goleg

Gweithio gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill mewn ysgol neu goleg
Creu newid mewn ysgol neu goleg

Asesir yr unedau'n fewnol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau all gynnwys:

Arsylwadau uniongyrchol gan diwtor/athro neu asesydd o fewn y gweithle
Aseiniadau ysgrifenedig a thrafodaeth broffesiynol yn unol â'r asesiad dysgu a neilltuir ar gyfer pob uned.

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster, byddwch yn Uwch Ymarferydd. Bydd Uwch Ymarferydd yn defnyddio sgiliau arwain hollbwysig i fentora eraill sydd â swyddi a chyfrifoldebau gwahanol yng ngweithlu'r ysgol neu goleg, megis:

Ymarferydd Lefel Uwch/Cymhorthydd Dysgu
Dilyniant mewnol ar lefel uwch, yn cynnwys y rheiny gyda chyfrifoldebau rheoli
Cyfleoedd arwain, mentora, goruchwylio a rheoli

Gofynion Mynediad

Mae'n rhaid i chi fod yn o leiaf 18 oed, ac yn cael eich cyflogi mewn swydd addas o fewn ysgol neu goleg. Mae astudiaeth flaenorol ar lefel 3 yn fantais amlwg, ond mae cyfoeth o brofiad, gwybodaeth a dealltwriaeth o weithio mewn ysgolion a cholegau'n ofyniad ar gyfer y cymhwyster Datblygiad Proffesiynol Parhau hwn. Bydd Coleg Gwent yn gallu cynnig cyngor cynnil i chi mewn perthynas â'ch addasrwydd i gael dilyn y cymhwyster.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd angen i chi fod yn ymroddedig i sicrhau arfer gorau a gallu dangos hyn yn y gweithle ac mewn coleg.

Disgwylir i chi gyflawni presenoldeb 100% yn eich sesiynau trefnedig, a gweithio at derfynau amser fel y nodwyd yn yr amserlen asesu.

Gofynnir eich bod wedi pasio gwiriadau DBS.

Gwybodaeth Ychwanegol